



20 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithiwr

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein dull o raddio'r haf hwn.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo arholiadau ar gyfer haf 2020, rydym yn gweithio gyda CBAC i sefydlu'r ffordd decaf i roi graddau ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod anodd iawn i ddysgwyr, gweithwyr addysg proffesiynol, rhieni ac unrhyw un arall y mae datblygiadau iechyd cyhoeddus difrifol a chyflym, a sefyllfa sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, yn effeithio arnynt.

Mae gan bobl lawer o gwestiynau ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Er na chawn yr holl atebion hyd nes y byddwn wedi gweithio'n ofalus drwy'r manylion a'r dadansoddi, gallwn roi syniad o'n dull gweithredu.

Bydd graddau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn 2020 yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth. Byddant yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau a all gynnwys marciau am waith a gwblhawyd hyd yma, er enghraifft, canlyniadau UG ar gyfer graddau Safon Uwch, a graddau safonedig a asesir gan athrawon.

Bydd graddau a asesir gan athrawon yn seiliedig ar yr hyn y byddai athrawon yn disgwyl i ddysgwr ei gyflawni ar ddiwedd y cwrs. Mae angen iddynt gynrychioli dyfarniad teg, rhesymol ac wedi'i ystyried yn ofalus o'r radd fwyaf tebygol y gellid ei gyflawni mewn amgylchiadau arferol. Mae hwn yn ddyfarniad proffesiynol sy'n seiliedig ar y wybodaeth asesu gyfun a gedwir ar gyfer y dysgwr hwnnw a bydd yn farn gyfannol yn hytrach nag yn canolbwyntio ar un ffynhonnell dystiolaeth fel ffug arholiadau. Nid graddau targed na graddau dyheadol yw'r rhain ac nid ydynt yn

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

gysylltiedig â mesurau perfformiad, sydd wedi'u hatal am eleni gan Lywodraeth Cymru.

O ystyried pwysigrwydd clir canlyniadau TGAU, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer symud ymlaen i addysg, gwaith a bywyd, rydym yn blaenoriaethu'r cymwysterau hyn. Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi graddau ar gyfer Safon UG nac ar gyfer asesiadau uned a gymerir gan ddysgwyr Blwyddyn 10 yn yr un modd. Ar gyfer y dysgwyr hynny, rydym yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys y cyfle i sefyll arholiadau mewn cyfresi arholiadau dilynol. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion am y cynlluniau hynny cyn gynted ag y gallwn.

Rydym yn dal i ystyried y ffordd decaf o roi graddau i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau ar wahân i TGAU a Safon Uwch. Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig ledled y DU, felly rydym yn gweithio gyda chyd-reoleiddwyr, byrddau arholi a llywodraethau ledled y DU i sicrhau cysondeb. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion am y cynlluniau hynny cyn gynted ag y gallwn.

Rhan bwysig o'n hymdrechion i gydlynu gweithgareddau fydd cytuno ar y dyddiadau y bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi. O ystyried natur y graddau sy'n cael eu cyhoeddi eleni, ni fydd adolygiad o farcio yn y ffordd arferol.

Rydym yn gweithio'n galed i roi mwy o eglurder, cyn gynted â phosibl, a byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Rwy'n sylweddoli bod hon yn adeg gythryblus a hoffwn ddiolch i chi am eich dealltwriaeth barhaus ar yr adeg anodd hon sy'n effeithio ar bawb.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr

